# Digwyddiad Dysgu Maint Cymru: Rhannu Profiadau Tyfu Coed

**Dydd Mercher 6 Hydref 09:00 - 13:30 (BST)**

Ymunwch â Maint Cymru ar gyfer ein digwyddiad dysgu tyfu coed rhyngwladol cyntaf erioed. Byddwn yn dod â sefydliadau yng Nghymru a'u partneriaid lleol sy'n cefnogi cymunedau i dyfu coed yn Affrica a De-ddwyrain Asia at ei gilydd, fel rhan o'n hymateb cenedlaethol i newid yn yr hinsawdd.

Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn rhithwir ar Zoom. Gallwch gofrestru ar ein gwefan yn: https://sizeofwales.org.uk/learning-event-sharing-tree-growing-experiences/

## Rhaglen: *(Amseroedd - Amser Haf Prydain)*

**08:55** **Mae'r Digwyddiad Rhithwir yn agor** – ymunwch gyda'r ddolen zoom.

**09:00** **Croeso gan Carwyn Jones, Cadeirydd Maint Cymru**

**09:15** **Sesiwn 1:**

**Cydbwyso manteision tyfu coed ac adfer coedwigoedd ar draws yr amgylchedd, yr hinsawdd a phobl**

Ru Hartwell a John Bett (Bore, Kenya), Dr Tim Pagella (Prifysgol Bangor), Dr Tristram Hales (Prifysgol Caerdydd), Dr Cathryn MacCullum (Sazani Associates)

**10:20** **Sesiwn 2: Sut mae tyfu coed yn gallu hyrwyddo hawliau o ran rhywedd?**

Teresa Gitonga (International Tree Foundation, Kenya), Madeleine Scordellis (TreeSisters), Lorna Alum (Mount Elgon Tree Growing Enterprise)

***11:15*** ***Egwyl*** *(15mun – peidiwch â logio allan o Zoom)*

**11:30** **Prif siaradwr:** Lee Waters MS, Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Llywodraeth.

**11:50** **Sesiwn 3: Cymell tyfu coed ar lefelau lleol a rhanbarthol, a hyrwyddo gweithredu dan arweiniad y gymuned**

Khady Tendeng (United Purpose, Senegal); Carmel Moran, (United Purpose), Ansumana Sanneh (United Purpose), Godfrey Natwaluma (Mount Elgon Tree Growing Enterprise), and Paul Wagstaff (Self Help Africa)

**12:35** **Sesiwn 4: Mesur effaith – monitro newid**

Alex Harris & Michael Sunday (Mount Elgon Tree Growing Enterprise) a Dr TC Hales, (Prifysgol Caerdydd/ Aildyfu Borneo)

**12:55** **Cwestiynau**

**13:05** **Cyfarfod Llawn**: Nicola Pulman (Maint Cymru) a Robert Penn (Stump up for Trees)

**13:30** **Diwedd**

Size of Wales is a charity registered in England and Wales numbered 1143178
Mae Maint Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 1143178

## Panelwyr/Siaradwyr:

**Lorna Alum** yw'r Swyddog Diogelu a Chydraddoldeb Rhwng y Rhywiau a Chynhwysiant Cymdeithasol Mount Elgon Tree Growing Enterprise (METGE), ac mae hi'n cefnogi eu nod o brif ffrydio rhyw a chynhwysiant yn eu gwaith, ac o arwain materion diogelu ar draws y prosiect.

Mae **John Bett** yn ymgynghorydd annibynnol, sy'n cefnogi Dylunio a Rheoli Prosiectau. Mae ganddo fwy na 15 mlynedd o brofiad yn rheoli rhaglenni coedwigaeth cymunedol ar Arfordir Kenya, ac yn Uganda a Tanzania. Mae John wedi bod yn gweithio gyda phrosiect Bore yn Kenya, gyda chefnogaeth Carbon Link. Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu gan Maint Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Teresa Gitonga** yw Rheolwr Rhaglen Kenya ar gyfer International Tree Foundation. Mae hi wedi bod yn darparu hyfforddiant ar integreiddio rhyw a chydraddoldeb gyda sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad fel dimensiwn hanfodol ar gyfer llwyddiant rheoli adnoddau naturiol, gwella bywoliaeth, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae **Dr T.C Hales** yn wyddonydd rhyngddisgyblaethol, amgylcheddol, ac yn Ddarllenydd mewn Gwyddor Daear ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd â diddordeb mewn deall y berthynas rhwng systemau amgylcheddol a chymdeithasol, yn enwedig mewn cysylltiad â phrosesau arwyneb y ddaear. Mae'n un o sylfaenwyr a Chadeirydd presennol Regrow Borneo.

Mae **Alex Harris** yn ddadansoddwr geo-ofodol i Lywodraeth Cymru, sydd yn frwdfrydig dros ben dros yr amgylchedd a phlannu coed. Mae wedi bod yn cefnogi rhaglen tyfu coed Mbale sydd yn cael ei rheoli gan Maint Cymru, mewn partneriaeth â Mount Elgon Tree Growing Enterprise (METGE) ers 2015.

Mae **Ru Hartwell** yn Gyfarwyddwr Carbon Link, prosiect coedwigaeth sy'n cysylltu Cymru a Kenya, a sylfaenydd y Siopau Hinsawdd, yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth, Cymru.

Mae **Carwyn Jones** yn Cadeirydd Maint Cymru. Mae e'n cyn Prif Weinidog Cymru (rhwng 2009 a 2018). Mae wedi gwasanaethu yn Llywodraeth Cymru hefyd fel y Gweinidog dros Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg, ac fel Cwnser Cyffredinol Cymru.

Mae **Dr Cathryn MacCullum** yn un o Sylfaenwyr Sazani Associates, ac yn arbenigwr llywodraethu adnoddau naturiol. Mae ganddi fwy na 25 mlynedd o brofiad rhyngwladol mewn perfformiad cymdeithasol a datblygu gwledig ar draws Affrica ac Ewrop.

**Godfrey Natwaluma** yw Rheolwr Rhaglen Mount Elgon Tree Growing Enterprise, sefydliad sy'n galluogi cymunedau i blannu 25 miliwn o goed i gefnogi bywoliaeth ac addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd.

Mae **Dr Tim Pagella** yn wyddonydd system o Brifysgol Bangor, sydd â diddordeb yn bennaf mewn systemau amaeth-goedwigaeth, a sut mae'r manteision bywoliaeth a lles mewn perthynas â'r systemau hyn yn cael eu dosbarthu ar draws graddfeydd (mewn systemau trofannol a thymherus).

Mae **Robert Penn** yn gyd-sylfaenydd a rheolwr prosiect Stump up for Trees, sef prosiect arloesol i blannu 130,000 o goed llydanddail brodorol ar dir comin ar Fryn Arw ym Mynyddoedd Du Bannau Brycheiniog, Cymru.

**Nicola Pulman** yw Cyfarwyddwr Maint Cymru, ac mae ganddi gefndir ym maes rheoli cefn gwlad ar gyfer cadwraeth, a gweithio gyda phobl leol.

Mae **Madeline Scordellis** yn gweithio fel Rheolwr Partneriaethau Coed yn TreeSisters, ac yn rheoli'r perthnasau â'u partneriaid plannu coed. Mae hi hefyd yn cynnwys y gwaith plannu coed yn holl agweddau eraill o waith TreeSisters.

**Micheal Sunday** yw Swyddog Prosiect METGE, ac mae wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid gweithredu lleol i alluogi cymunedau lleol i blannu miliynau o goed i gefnogi bywoliaethau ac i addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd.

Mae **Khady Tendeng** yn cefnogi gwaith United Purpose yn Senegal.

Mae **Paul Wagstaff** yw Pennaeth y Tîm Cynghori ac Ymchwil Technegol Byd-eang am Self Help Africa.

Mae **Lee Waters** yn Aelod y Senedd dros Blaid Llafur Cymru a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn Llywodraeth Cymru